Eleri Jones
Ysgol G.G. Caerffili
Heol Parcyfelin
Caerffilli
CF83 3AH

29/07/2025

Annwyl Eleri Jones

**Ymweliad Interim:** Gorffennaf 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm

- Mae arweinwyr wedi gosod blaenoriaeth glir ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion, yn ogystal â darparu cyfleoedd cyfoethog iddynt gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn ymwybodol o'r ffocws ac yn gweithio'n ddiwyd i'w wireddu.
- Mae arweinwyr wedi gweithredu'n ddyfal ac yn strategol i wreiddio addysgeg effeithiol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae disgwyliadau cytûn gan staff ar draws yr ysgol yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau mewn modd adeiladol dros amser. Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn ofalus ac yn cydweithio â staff i fireinio'r addysgu ymhellach er mwyn anelu at fwy o gysondeb.
- Er mwyn cefnogi staff i wella eu harfer wrth gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau ysgrifennu, mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar eu cyfer. Mae staff yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill er mwyn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhellach o'r modd y gallent gefnogi'r disgyblion yn well. Trwy hyn, maent wedi llunio cynlluniau ar gyfer darparu

cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu yn adeiladol dros amser.

- Mae staff y disgyblion ieuengaf yn blaenoriaethu datblygiad medrau cyn-ysgrifennu disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn cynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol mân a mawr, a'u medrau llafar, yn llwyddiannus.
- Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarnhaol at ysgrifennu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu'n briodol ac yn defnyddio ystod o atalnodi a geirfa ymestynnol er mwyn cyfoethogi eu gwaith ysgrifennu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall eu nodau ysgrifennu unigol ac mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd dysgu penodol er mwyn cefnogi disgyblion i fodloni'r nodau hyn. Maent yn ymateb yn effeithiol i adborth ac yn defnyddio'r nodau ysgrifennu unigol yn llwyddiannus i wella eu gwaith ysgrifennu. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

### Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol

- Mae arweinwyr wedi cynnwys yr holl staff wrth gryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Maent wedi myfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud yn llwyddiannus a'r agweddau y gellir eu gwella ymhellach.
- Mae arweinwyr yn cynnal ymchwil buddiol er mwyn ystyried yr arfer orau er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol ymhellach. Mae eu hymchwil ar 'ddysgu sut mae dysgu' wedi arwain at gefnogi'r disgyblion hynaf i baratoi sesiynau dysgu ar gyfer eu cyfoedion.
- Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o staff sy'n cynnwys cysondeb ar draws yr ysgol o ran sut i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu'n annibynnol. Mae arweinwyr yn monitro'r addysgu a'r dysgu yn gyson, gan roi adborth perthnasol i athrawon ar sut i gryfhau eu harfer ymhellach.
- Mae athrawon yn rhannu arfer dda yn fewnol yn fuddiol gan ymweld â dosbarthiadau ei gilydd yn rheolaidd. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, mae athrawon yn recordio cyflwyniadau gwersi pan fydd yn berthnasol, sy'n galluogi disgyblion i ailymweld â'r cyflwyniad yn eu hamser eu hunain, pe bai angen.
- Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ymestyn medrau annibynnol disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r offer sydd ar gael o fewn yr ardaloedd dysgu yn annibynnol ac yn llwyddiannus. Mae disgyblion o oedran ifanc yn deall  system adborth yr ysgol, a beth i'w wneud i wella eu gwaith er mwyn symud eu dysgu ymlaen.

- Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu. Maent yn gwneud dewisiadau synhwyrol pan fyddant yn gwella eu gwaith ac yn gwneud dewisiadau aeddfed o ran sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6762282

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol